# DISGRIFIAD SWYDD

| | |
|---|---|
| **TEITL SWYDD:** | Cynorthwy-ydd Cymunedau a Chynrychiolaeth Myfyrwyr: Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu |
| **YN ATEBOL I**: | Pennaeth Llais y Myfyrwyr |
| **CYFLOG**: | Cyflog Byw Go Iawn £12.60 yr awr ar hyn o bryd |
| **ORIAU**: | 8 awr yr wythnos |

**DYDDIAD YSGRIFENNU**: Awst 2025

## PWRPAS Y RÔL:

Meithrin y gymuned fyfyrwyr yn yr adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu a gweithio gydag Undeb Aberystwyth gan ddefnyddio'r gymuned hon i arloesi a gwella cynrychiolaeth academaidd.

## DYLETSWYDDAU A CHYFRIFOLDEBAU:

### Trefnu cymunedol:

- Cefnogi cydlynu a chyflawni digwyddiadau a gweithgareddau cymdeithasol a'r tu hwnt i astudiaethau i fyfyrwyr yn yr adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu.
- Cydweithio gydag Undeb y Myfyrwyr, staff yr adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu i gryfhau a datblygu systemau cynrychiolaeth academaidd o fewn yr adran.
- Cyfrannu at feithrin ymdeimlad o gymuned a pherthyn ymysg myfyrwyr Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu.

## Dyletswyddau eraill:

- Hyrwyddo a chynnal gwerthoedd a pholisïau Undeb Aberystwyth mewn ffordd gadarnhaol.
- Pleidio dros Undeb Aberystwyth a'n gwaith, yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol yn ôl y sefyllfa.
- Gweithio yn unol â dogfennau llywodraethol yr Undeb, y Cyfansoddiad yn bennaf.
- Cynnal disgwyliadau rhesymol o ran iechyd a diogelwch, diogelu data, a rheolau a deddfau perthnasol eraill lle bo'n addas.
- Helpu yn nigwyddiadau allweddol Undeb Aber trwy gydol y flwyddyn gan gynnwys
- Wythnos y Croeso a'r Etholiadau.
- Bod ag agwedd hyblyg tuag at ddyletswyddau a gwaith, ac yn arbennig, mabwysiadu dull i gydweithio gydag adrannau a gweithgareddau ar draws yr Undeb. Gallai hyn olygu cymryd dyletswyddau eraill i gefnogi gweithgareddau a Gwasanaethau adrannau eraill.
- Cyfrifoldeb holl staff Undeb Aber yw cymryd ystyriaeth o'r amgylchedd ac arfer amgylcheddol gorau
- Dangos ymddygiad a safonau Undeb Aber yn eich bywyd gwaith bob dydd

## NEWIDIADAU I'R DISGRIFIAD SWYDD:

Gall y disgrifiad swydd gael ei newid ar unrhyw adeg yn sgil trafodaeth gyda deiliad y swydd.

*Nid rhestr gynhwysfawr o'r tasgau a wneir gan ddeiliad y swydd hon mo'r disgrifiad swydd hwn. Ond, fodd bynnag, mae'n gosod prif ddisgwyliadau yr Undeb yn ymwneud â dyletswyddau a chyfrifoldebau deiliad y swydd, ac efallai y bydd disgwyl i ddeiliad y swydd gymryd gwaith arall/ychwanegol sy'n gyfateb â'r radd gyflog.*

**MANYLDEB PERSONOL:** CYNORTHWY-YDD Cymunedau a Chynrychiolaeth Myfyrwyr: Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu

| CRITERIA | Angenrheidiol | Cais | Cyfweliad |
|---|---|---|---|
| **CYMWYSTERAU** | | | |
| Rhaid bod yn fyfyriwr/wraig Prifysgol Aberystwyth presennol yn yr adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu ar gyfer y Flwyddyn Academaidd 2025-26. | Hanfodol | √ | |
| **PROFIAD/GWYBODAETH** | | | |
| Bod â diddordeb mewn gwaith llais myfyrwyr a/neu Feithrin Cymunedau neu brofiad o'r rheiny a'ch bod yn frwd dros gyflawni newid ystyrlon a gaiff effaith gadarnhaol ar fywydau eraill. | Hanfodol | √ | √ |
| Dealltwriaeth o faterion a themâu mewn Addysg Uwch a/neu Undebau Myfyrwyr | Dymunol | √ | √ |
| **NODWEDDION/SGILIAU** | | | |
| Y gallu i feithrin a chynnal perthnasoedd gwaith cryf gydag amryw o unigolion gwahanol. | Hanfodol | √ | √ |
| Y gallu i arwain unigolion i weithredu (ee trefnu digwyddiad). | Hanfodol | | |
| Sgiliau trefnu a gweinyddu o safon uchel gyda'r gallu I weithio ar eich liwt eich hun heb oruchwyliaeth uniongyrchol.. | Hanfodol | √ | √ |
| Cymwys mewn platfformau digidol a meddalwedd megis Microsoft Teams, Microsoft Office a'r cyfryngau cymdeithasol. | Hanfodol | √ | √ |
| Y gallu i hyrwyddo delwedd gadarnhaol o Undeb Aberystwyth | Hanfodol | √ | √ |
| Y gallu i weithio'n effeithlon mewn tîm ac ar eich liwt eich hun | Hanfodol | √ | √ |
| Bod ag agwedd i fynd ati i gyflawni gwaith a'ch ysgogi eich hun | Hanfodol | √ | √ |
| Yn gyfeillgar a chynnes eich cymeriad | Hanfodol | | √ |
| Y gallu i aros yn dawel pan fyddwch dan bwysau yn enwedig a'r gallu i oresgyn heriau neu broblemau mewn ffordd adeiladol | Hanfodol | | √ |
| Dealltwriaeth o ac ymrwymiad i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywioldeb ac arferion cynhwysol | Hanfodol | √ | |
| Ymrwymiad i gynnal gwerthoedd Undeb Aberystwyth | Hanfodol | √ | |
| Sgiliau cyfathrebu rhagorol | Hanfodol | √ | √ |
| Y gallu i gyfathrebu yn rhugl yn y Gymraeg | Dymunol | √ | |